TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NCFE CACHE Diploma Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion Lefel 3



**Yn gryno**

Mae cymorth dosbarth mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn helpu plant i gyflawni eu potensial llawn - ac os yw gweithio mewn rôl gefnogi yn apelio atoch chi, bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i ddysgwyr o'r wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn amgylchedd ysgol a choleg. Mae'n ymdrin â phob agwedd ar gefnogaeth arbenigol, gan gynnwys: cynllunio; gweithredu ac adolygu strategaethau asesu i gefnogi dysgu ochr yn ochr â'r athro/athrawes; cefnogaeth ddwyieithog; cefnogaeth anghenion arbennig; datblygiad personol ac ymarfer myfyriol.

Bydd disgwyl ichi ennill profiad ymarferol o weithio mewn swyddogaethau sy'n cefnogi addysg disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu ADY, yn ogystal â cholegau, am o leiaf un diwrnod yr wythnos, fel cyflogai neu wirfoddolwr. Os ydych yn astudio'n rhan-amser, mae'n bwysig eich bod yn trefnu eich lleoliad cyn cofrestru.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych eisiau gweithio gyda phlant neu bobl ifanc mewn sefyllfa ddosbarth

...ydych eisiau bod yn gynorthwyydd dosbarth neu gynorthwyydd cymorth dysgu

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs yn cydnabod y gwaith cefnogi hanfodol sy'n digwydd mewn ysgolion a cholegau, ac mae wedi'i gynllunio i gynorthwyo cynnydd a throsglwyddo ledled y gweithlu plant mewn ysgolion a cholegau. Byddwch yn cwblhau 16 uned orfodol yn ystod y flwyddyn; 7 uned gwybodaeth yn unig a 9 uned yn gyfuniad o wybodaeth ac ymarfer. Bydd rhai'n cael eu hasesu yn eich lleoliad ysgol/coleg a byddwch yn cwblhau aseiniadau ysgrifenedig ar gyfer y mwyafrif o'r unedau.

Bydd bob uned yn cael ei hasesu ar wahân drwy amrywiaeth o ddulliau asesu.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond mae CACHE yn argymell y dylai fod gennych y canlynol er mwyn gallu ymdopi â gofynion y cymhwyster: 5 TGAU gradd C neu gyfwerth, neu gymhwyster galwedigaethol Gofal Lefel 1.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn dilyn y cwrs hwn, gallwch symud ymlaen i gyflogaeth mewn swyddogaethau megis cynorthwyydd dosbarth neu gynorthwyydd cymorth dysgu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS boddhaol.